Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau 20fed Tachwedd 2025 – 18:00
Y Neuadd Fawr

## Agenda

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1. | Croeso | |
| Gorffennol | 2. | Cofnodion CCB Tachwedd 2024 | (T2) |
| | 3. | Adroddiad Blynyddol 24/25 | (T12) |
| | 4. | Adroddiad Ariannol 24/25 | (T13) |
| Presennol | 5. | Ymlyniadau | (T18) |
| | 6. | Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr | |
| Dyfodol | 7. | Ailstrwythuro Arfaethedig Tîm y Swyddogion Sabothol | (T19) |
| | | Cynigion a Gyflwynwyd | |
| | 8. | A) Polisi sy'n Dirwyn i Ben | (T20) |
| | | B) Cynigion a Gyflwynwyd | (T21) |
| | | i) Mae wedi Cymryd Digon Hir: Mae'n amser gweithredu ar drais rhywiol | (T21) |
| | | ii) Fy Ngwisg, Fy Newis: Cydraddoldeb mewn Cod Gwisg Gofal Iechyd | (T28) |
| | | iii) I Undeb Myfyrwyr Caerdydd ymgyrchu dros a chefnogi'r safbwynt O Blaid Dewis | (T31) |
| | | iv) Cynnig Pedwar: Gwneud Caerdydd Yn Lle Diogel I Fyfyrwyr Traws | (T34) |
| | 9. | Hysbysiad Etholiadau | (T38) |
| | 10. | Unrhyw Fater Arall | |

# EITEM DAU

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau 21ain Tachwedd 2024 - 18:00
Y Neuadd Fawr

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawodd Maria Pollard (Cadeirydd) bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd sut byddai busnes yn cael ei gynnal yn ystod y cyfarfod. |
| 2. | **Cofnodion CCB 2023**<br>Aeth MPC trwy'r cofnodion fesul tudalen a gwahoddodd mynychwyr i fynd at y pwynt gwybodaeth er mwyn tynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau.<br>**Cadarnhawyd cofnodion CCB 2023 fel cofnod cywir gydag un mân gywiriad.** |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol 23/24**<br>Cyflwynodd Madison Hutchinson Llywydd yr UM (MH) Adroddiad Effaith Blynyddol 23/24. Tynnodd MH sylw at y gwaith a wnaed drwy ymgyrchoedd i leddfu costau byw i fyfyrwyr a gwella ardaloedd Undeb y Myfyrwyr (UM). Amlygodd MH ffocws penodol ar<br>- cefnogi myfyrwyr i atal trais rhywiol ar y campws trwy sefydlu'r gweithgor cyntaf i fyfyrwyr.<br>- lobïo ysgolion i sicrhau bod cytundebau Tiwtoriaid Graddedig yn eu lle ym |

| | |
|---|---|
| | mhob ysgol.<br>- cyflwyno cronfa hunaniaeth rhywedd.<br>- darparu pecynnau profi STI a phrofion beichiogrwydd am i fyfyrwyr yn yr UM.<br>Rhannodd MH fod ymgysylltiad gyda'r UM ar ei uchaf erioed gyda dros 70,000 o ymgysylltiadau unigryw - cynnydd o 3.7% o'r flwyddyn flaenorol. Daeth MH â'r adroddiad i ben drwy rannu'r fideo adroddiad effaith ar gyfer y CCB.<br>https://www.cardiffstudents.com/about/hwr/reports-and-policy/ |
| 4. | **Adroddiad Ariannol 23/24**<br>Cyflwynodd Daniel Palmer, y Prif Swyddog Gweithredol (DP), Adroddiad Ariannol 23/24 a datganiadau ariannol archwiliedig y grŵp a'r Undeb.<br>Dechreuodd DP yr adroddiad drwy roi trosolwg byr o sut mae'r sefydliad yn cael ei redeg, gan nodi ei fod yn cael ei arwain gan fyfyrwyr, yn annibynnol ar y brifysgol, a'i fod yn elusen gofrestredig.<br>Tynnodd DP sylw at y tair ffynhonnell fwyaf ar gyfer incwm yr UM sef y grant bloc o £3miliwn oddi wrth y brifysgol, incwm gan fusnesau'r UM a grantiau arbennig gan y brifysgol a Llywodraeth Cymru.<br>Rhannodd DP fod incwm yr UM wedi codi ychydig ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd y cynnydd yn ein hallbwn masnachol a phartneriaethau megis y bartneriaeth a sefydlwyd gyda Ticketmaster. Nododd DP fod gwariant net o £73,000 a dangosodd y mantolenni i'r CCB. |

| | |
|---|---|
| 5. | **Ymlyniadau**<br>Eglurodd MPC ymlyniadau'r UM gydag UCM a BUCS a rhoddodd gyfle i'r aelodau drafod yr ymlyniadau.<br>Ni ddewisodd unrhyw aelod drafod yr ymlyniad â BUCS. Symudodd MPC at bleidlais ar yr ymlyniad â BUCS.<br>***Ymlyniad BUCS wedi'i gymeradwyo.***<br>Dewisodd aelodau drafod yr ymlyniad UCM.<br>Siaradodd Micaela Panes IL ÔI-raddedig (MP) o blaid yr ymlyniad ag UCM.<br>Siaradodd Penny Dingh (PD) yn erbyn yr ymlyniad ag UCM.<br>Gwahoddodd y cadeirydd aelodau i bleidleisio ar ymlyniad ag UCM.<br>***Ymlyniad UCM wedi'i gymeradwyo.*** |
| 6. | **Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr**<br>Eglurodd MPC y gweithdrefnau ar gyfer cwestiynau i'r ymddiriedolwyr. Darllenodd MPC y tri chwestiwn cyntaf:<br>1. "A allwch roi diweddariad ar sut mae'r UM yn gweithio i wella hygyrchedd?"<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd MP ar ran yr ymddiriedolwyr. Tynnodd MP sylw at hygyrchedd fel proses barhaus sy'n wirioneddol bwysig i'r UM. Rhannodd MP rywfaint o'r gwaith y mae'r UM wedi'i wneud i hyrwyddo hygyrchedd megis gosod ail lifft i deithwyr, gwella hygyrchedd y CCB trwy ffrydio byw a chynnwys capsiynau caeedig, a sicrhau hygyrchedd Ffeiriau'r Glas. Gwahoddodd MP myfyrwyr i rannu unrhyw |

| | |
|---|---|
| | beth yr hoffent ei weld o ran hygyrchedd.<br><br>2. “Dyma ail flwyddyn IL y Gymraeg fel rôl llawn amser. Beth yw’r effaith fwyaf yn eich barn chi o gael Swyddog y Gymraeg llawn amser?”<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Atebodd Catrin Edith Parry IL y Gymraeg (CP) ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dywedodd CP fod y Gymraeg wedi dod yn fwy gweledol o amgylch y campws ers cychwyn y rôl, a nododd fod yr Undeb wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg, yr UM cyntaf yng Nghymru i wneud felly. Gwnaeth hefyd dweud bod y berthynas rhwng myfyrwyr Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a’r Undeb wedi’i gryfhau a thynnodd sylw at y ffaith fod gwefan yr Undeb bron yn gwbl ddwyieithog erbyn hyn. Gwnaeth cydnabod bod rhagor o waith i’w wneud. Hoffai gweld gwelliant yn narpariaeth Gymraeg y Brifysgol, gan gynnwys argaeledd tiwtoriaid personol Cymraeg a gwell Cymraeg gweledol ar y campws. Gwnaeth grynhoi gan ddweud bod cynnydd mawr wedi’i wneud ond fod parhad y rôl yn hanfodol er mwyn dyfodol y Gymraeg yn y Brifysgol.<br><br>3. “Sut ydych chi'n gweithio i fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth ar y campws?”<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd MH drwy rannu nad yw’r UM yn goddef unrhyw fath o wrthsemitiaeth. Soniodd MH fod y swyddogion yn gweithio ar hyn, ac yr hoffai MH agor sianeli |

| | |
|---|---|
| | cyfathrebu gyda grwpiau myfyrwyr. Anogodd MH fyfyrwyr i adrodd unrhyw fath o wrthsemitiaeth i'r brifysgol neu'r UM.<br><br>4. "Pasiwyd cynnig Cadoediad Nawr yn CCB 2023 a oedd yn galw ar yr UM i drefnu a hwyluso addysg ynghylch Palesteina, gan annog myfyrwyr i fod yn feirniadol ynghylch propaganda. Pa ddigwyddiadau ac adnoddau addysgol neu arall y mae'r UM wedi'u cefnogi neu eutrefnu ers i'r cynnig hwn gael ei basio?"<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd MP i'r cwestiwn hwn gan nodi bod y swyddogion wedi gweithio'n galed i weithio ar benderfyniadau cynnig Cadoediad Nawr CCB 2023. Tynnodd MP sylw at y ffaith bod y Swyddogion wedi rhyddhau datganiad ar wefan yr UM yn cefnogi pobl Palesteina ac yn galw am gadoediad. Bu'r tîm hefyd yn gweithio gyda'r brifysgol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol. Tynnodd MP sylw at y ffaith bod y tîm yn gweithio gyda myfyrwyr i amddiffyn eu hawl i brotestio. Rhannodd MP hefyd fod y Swyddogion wedi cefnogi digwyddiad ar gyfer myfyrwyr a oedd yn dymuno dysgu mwy am y gwersyll.<br><br>5. "A fyddai Urdd y Cymdeithasau yn ystyried ailgyflwyno'r ffi dymhorol ar gyfer cymdeithasau i gefnogi myfyrwyr a all fod yma am dymor yn unig ac nid blwyddyn gyfan?" |

| | |
|---|---|
| | *Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Atebodd Eve Chamberlain Is-lywydd Cymdeithasau (EC) y cwestiwn hwn trwy egluro bod y ffi yn helpu cefnogi eu grant a gweithgarwch cymdeithasau. Gwahoddodd EC y myfyrwyr i gysylltu â hi os hoffent sgwrsio am hyn ymhellach.<br><br>6. "Beth mae'r UM yn ei wneud ynghylch ciw YOLO?"<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Rhannodd MH ei hymateb trwy nodi poblogrwydd YOLO. Rhannodd MH fod yr UM yn gweithio'n galed bob wythnos i sicrhau bod y ciw yn ddiogel trwy osod staff diogelwch a ffensys ychwanegol. Rhannodd MH fod diogelwch yn flaenoriaeth i'r UM ac anogodd fyfyrwyr i gyrraedd y digwyddiad yn hwyrach.<br><br>7. "Llynedd, codwyd pryderon yn y CCB ynghylch cymorth i fyfyrwyr sy'n cymudo neu'r rhai sy'n byw gartref. Pa gamau sydd wedi'u cymryd ynghylch y pryderon hyn?"<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd MP i'r cwestiwn hwn drwy rannu bod yr UM am sicrhau bod cymaint o fyfyrwyr â phosibl yn gallu ymgysylltu â'r UM. Tynnodd MP sylw at y ffaith bod y tîm bob amser yn ceisio gwneud gwelliannau ac atgoffodd myfyrwyr o'r system pleidleisio drwy ddirprwy. |

| | |
|---|---|
| | 8. “Dywedodd adroddiad y Cadeirydd fod y CCB yn hygyrch i bawb, fodd bynnag fe'i cynhelir o 6-9yh sy'n eithrio myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu . Mae hyn yn debygol o effeithio'n anghymesur ar Ôl-raddedigion neu fyfyrwyr YÔR sydd eisoes yn ymgysylltu llai gyda’r UM. A ydych wedi ystyried adroddiad asesiad effaith ar y mater hwn a sut ydych yn mynd i sicrhau nad yw’r grwpiau hyn yn cael eu heithrio yn y dyfodol?”<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Dywedodd MP y gall fod yn anodd iawn dod o hyd i amser addas ar gyfer pob myfyriwr. Nododd MP y gallai'r presenoldeb ostwng pe bai'n cael ei gynnal yn ystod amserau darlithoedd. Anogodd MP myfyrwyr i estyn allan gydag unrhyw awgrymiadau sydd ganddynt.<br><br>9. “Beth mae’r UM yn mynd i’w wneud ynghylch penderfyniad y brifysgol i roi’r gorau i gyrsiau heb fawr o rybudd, weithiau ar ôl derbyn ceisiadau ar gyfer y cwrs, er enghraifft, y BA Mathemateg a Cherddoriaeth?”<br>*Ymateb gan yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd MH i'r cwestiwn drwy nodi ei bod yn gweithio gyda chynrychiolwyr academaidd o fewn ysgolion ar y mater hwn. Rhannodd MH eu bod hefyd yn ceisio darganfod gan y brifysgol pam yn union mae hyn wedi digwydd. Nododd MH eu bod yn aros am ymateb gan y brifysgol ac y bydd yn ei rannu gyda chynrychiolwyr academaidd. Rhoddodd MH wybod i fyfyrwyr fod yr UM yn lobïo |

| | |
|---|---|
| | dros hawliau myfyrwyr wrth i'r brifysgol fynd trwy gyfnod o newid. Rhannodd MH y dylai myfyrwyr gysylltu â'r UM neu Gyngor i Fyfyrwyr os ydynt yn teimlo nad ydynt wedi derbyn yr hysbysiad cywir bod cyrsiau'n cau.<br><br>Dywedodd MPC fod amser ar ben ar gyfer Cwestiynau i'r Ymddiriedolwyr. Nododd MPC y byddai'r cwestiynau a'r atebion ar gael ar wefan UM. |
| | Symudodd MPC ymlaen at eitem 7, sef papur a gyflwynwyd o'r enw Penderfyniad i Gymeradwyo Newidiadau Arfaethedig i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Undeb Myfyrwyr Caerdydd.<br>Cyflwynodd MPC y papur ac esboniodd y memorandwm ac erthyglau cymdeithasu. Cynigiodd MH y papur am hyd at 4 munud.<br>Gwahoddodd MPC y CCB i bleidleisio ar y papur.<br>**Pasiwyd y papur Penderfyniad i Gymeradwyo Newidiadau Arfaethedig i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Undeb Myfyrwyr Caerdydd.** |
| | Nododd MPC gynigion a oedd yn dirwyn i ben. |
| | Darllenodd MPC ddatganiad ar ran yr UM yn nodi'r disgwyliadau a rheolau ar gyfer dadl barchus rhwng myfyrwyr. |
| i. | **Sicrhau Cyfiawnder: Galw o'r Newydd i Roi Diwedd ar Drais Rhywiol**<br>Gwahoddodd MPC gynigwyr y cynnig Isabel Trinkle, Rebecca Rumsey a Rowan Dominique i gyflwyno'r cynnig am hyd at 4 munud.<br>Cyflwynodd y cynigwyr y cynnig drwy rannu straeon am drais rhywiol gan amlygu |

| | |
|---|---|
| | pwysigrwydd codi llais a chefnogaeth. Rhannodd y cynigwyr bod y cynnig yn canolbwyntio ar roi terfyn ar drais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth, a hyrwyddo addysg ynghylch perthnasoedd iach, a hyfforddiant ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol.<br>Crynhodd y cynigwyr y cynnig am hyd at 2 funud.<br>***Pasiodd y Cynnig (*Sicrhau Cyfiawnder: Galw o'r Newydd i Roi Diwedd ar Drais Rhywiol)** |
| ii. | **Gwrthwynebu Toriadau i Gyfleoedd Addysgu ar gyfer Myfyrwyr PhD**<br>Gwahoddodd MPC gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br>Rhannodd MP ei theimladau ynghylch pwysigrwydd myfyrwyr PhD wrth ddarparu addysg i fyfyrwyr israddedig. Nododd MP bwysigrwydd addysgu ar gyfer datblygiad a chyfleoedd i fyfyrwyr PhD. Dywedodd MP hefyd fod cyfleoedd addysgu yn darparu incwm i fyfyrwyr. Dywedodd MP fod y Brifysgol yn cael gwared ar y cyfleoedd hyn i fyfyrwyr.<br>Crynhodd MP y cynnig am hyd at 2 funud.<br>***Pasiodd y Cynnig (*Gwrthwynebu Toriadau i Gyfleoedd Addysgu i Fyfyrwyr PhD)** . |
| iii. | **Amddiffyn Ein Rhyddid i Fynegi Undod â Phalesteina**<br>Gwahoddodd MPC gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br>Cyflwynodd Luke Palin y cynnig a gwnaeth unigolyn arall rhannu effeithiau personol y gwrthdaro ym Mhalesteina. Rhannodd y cynigwyr nad ydyn nhw'n |

| | |
|---|---|
| | teimlo'n ddiogel yn mynegi'r teimladau hyn ar y campws a bod y cynnig yn canolbwyntio ar amddiffyn lleisiau myfyrwyr a'r hawl i brotestio.<br>Crynhodd y cynigwyr y cynnig am hyd at 2 funud.<br>***Pasiodd y Cynnig (*Amddiffyn Ein Rhyddid i Fynegi Undod â Phalesteina**). |
| iv. | **Amddiffyn Hawl Myfyrwyr i Drwyddedau Parcio yng Nghaerdydd**<br>Gwahoddodd MPC gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br>Cyflwynodd MH y cynnig drwy amlygu bod Cyngor Caerdydd yn cynnig gwahardd myfyrwyr rhag gwneud cais am drwyddedau parcio. Rhannodd MH fod yr UM wedi ymrwymo i weithredu ar yr hinsawdd a'i fod yn deall yr angen i wneud newidiadau, ond rhannodd bod baich y newid yn cael ei roi'n anghymesur ar fyfyrwyr, sydd o bosib yn methu gwneud y newidiadau. Amlygodd MH fod myfyrwyr yn rhan enfawr o'r ddinas a bod y polisi hwn yn effeithio'n annheg arnynt.<br>Crynhodd y cynigydd y cynnig am hyd at 2 funud<br>***Pasiodd y Cynnig (*Diogelu Hawl Myfyrwyr i Drwyddedau Parcio yng Nghaerdydd**). |
| | Gwahoddodd MPC fyfyrwyr i bleidleisio a hoffent glywed mwy o gwestiynau neu orffen y cyfarfod yn gynnar.<br>**Pleidleisiodd y CCB i orffen y cyfarfod yn gynnar.**<br>Rhannodd MPC hysbysiad o Etholiadau'r Gwanwyn 2024/2025. |
| 9. | **Unrhyw Fater Arall**<br>*Ni chyflwynwyd 'Unrhyw Fater Arall' a daeth y cyfarfod i ben.* |

# EITEM TRI

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 24/25**

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Maria Pollard, yn cyflwyno negeseuon allweddol yr adroddiad, gan dynnu sylw at ddatblygiadau, cyflawniadau a newidiadau arwyddocaol o fewn y sefydliad ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad effaith blynyddol ar gyfer 2024-25 yma:
https://www.cardiffstudents.com/about/hwr/reports-and-policy/

# EITEM PEDWAR

**ADRODDIAD ARIANNOL 2024/25**

## Adroddiad Ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen a'i his-gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019).

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Amcanion yr elusen yw hyrwyddo addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod eu cyfnod astudio, a'u cynrychioli, eu cefnogi a'u cynghori;
- Bod yn sianel gynrychioladol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau a fforymau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ar gyfer trafodaethau a dadleuon er datblygiad personol ei myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion yr Undeb ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ei weithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol ac atodol perthnasol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn er lles y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ei aelodau. Mae hefyd yn cydweithio â'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn pennu ei flaenoriaethau hirdymor yn unol â'i gynllun strategol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac sy'n cael ei lywio gan ymchwil a gynhelir gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol yr Undeb. Ym mis Rhagfyr 2021 lansiodd yr Undeb ei gynllun strategol presennol ar gyfer 2021 i 2025, o'r enw 'Calon Bywyd Myfyrwyr Caerdydd', a gellir ei weld yma: https://www.cardiffstudents.com/about/hwr/our-strategy/. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r cynllun strategol nesaf, mae disgwyl iddo gael ei lansio yn 2026. Mae adolygiad cynhwysfawr o'r cynnydd yn erbyn yr amcanion presennol ar y gweill, ochr yn ochr ag ymgynghoriad â rhanddeiliaid i lywio blaenoriaethau'r dyfodol. Ffocws canolog y cynllun strategol newydd fydd nodi cyfleoedd elusennol a masnachol newydd a fydd yn cryfhau cyllid a chynaliadwyedd yn y dyfodol wrth barhau

i wella profiad y myfyrwyr.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

Cyfanswm incwm y grŵp oedd £14,039,688 (2024 – £12,908,971) gyda chyfanswm gwariant o £13,108,936 (2024 – £12,835,212) yn ystod y flwyddyn. At ei gilydd, arweiniodd hyn at incwm net o £2,302,539 (2024: treuliau net £(73,037)) yn cynnwys gwarged cyfyngedig o £536,861 a gwarged anghyfyngedig o £1,765,678. Cafodd y canlyniadau hyn eu llunio gan bryniant pensiwn adran 75 o'r Cynllun Pensiwn Undebau Myfyrwyr (SUSS), a arweiniodd at symudiad o £1,371,787. Arweiniodd dadwneud y ddarpariaeth bensiwn â disgownt at ddebyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o £(213,239) (2024: £(146,796)).

Ar 31 Gorffennaf 2025, roedd cronfeydd wrth gefn rhydd y grŵp (h.y. cronfeydd anghyfyngedig ac eithrio cronfeydd dynodedig ac nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog a rhwymedigaethau cronfa bensiwn / benthyciad) yn cyfateb i £1,803,781 (2024 – £1,886,847), ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sail ariannol gadarn i barhau i weithredu a dilyn ei amcanion a'i weithgareddau. Yn ogystal, cadwyd £609,795 (2024 – £72,934) mewn cronfeydd cyfyngedig.

O fewn is-gwmni masnachu'r Undeb, Cardiff Union Services Limited, gostyngodd trosiant i £5,543,935 (2024 – £5,807,849), gan arwain at elw gros o £2,638,219 (2024: £2,759,191). Cynyddodd treuliau gweinyddol i £5,727,259 (2024: £5,109,204) yn ystod y flwyddyn. At ei gilydd, adroddodd yr is-gwmni masnachu elw o £1,471,834 (2024: colled o £(432,044)).

Gyda chymorth benthyciad di-log gan Brifysgol Caerdydd, gadawodd Cyfarwyddwyr Cardiff Union Services Limited y cynllun pensiwn SUSS trwy broses prynu Adran 75. Arweiniodd hyn at ddisodli'r ddyled ddisgownt a gadwyd yn CUSL o £4,625,233 (ar 31 Gorffennaf 2024) ar y fantolen gyda rhwymedigaeth benthyciad llai i Brifysgol Caerdydd o £3,004,000. Mae gwerth y benthyciad yn seiliedig ar sefyllfa ddyled S75 o £2,893,000 ynghyd â ffioedd cysylltiedig. Gwnaed y benthyciad gan Brifysgol Caerdydd i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r benthyciad yn ddi-log gydag ad-daliadau'n cael eu gwneud mewn llinell syth dros 12 mlynedd, gan ddechrau ym mis Awst 2026. O ganlyniad i brynu'r S75 gyda dyddiad gadael o 24 Mehefin 2025, nid oes gan y sefydliad unrhyw rwymedigaeth cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio mwyach.

Yn ystod y flwyddyn, bu buddsoddiad sylweddol yn adeilad Undeb y Brifysgol, fel rhan o welliannau parhaus i wella hygyrchedd, cynaliadwyedd, a'r cynnig elusennol a masnachol cyffredinol. Ymhlith y datblygiadau allweddol mae gosod ail lifft teithwyr i wella mynediad ledled y safle, ychwanegu paneli solar, gan gefnogi amcanion cynaliadwyedd y sefydliad. Dechreuwyd hefyd waith i ailosod to'r adeilad, gan gynnwys tynnu RAAC (Reinforced Autoclaved Aerated Concrete) ac adnewyddu ardaloedd eraill o'r to sydd wedi dirywio er mwyn sicrhau cadernid strwythurol a diogelwch. Y tu mewn, bu gwelliannau i ardal Y Cwtch, gan greu amgylchedd mwy croesawgar gyda mwy o

bosibiliadau o ran defnydd.. Mae buddsoddiad pellach wedi'i gynllunio i uwchraddio cyfleusterau Bar Balconi yn y flwyddyn nesaf i gwrdd â'r galw ychwanegol.

**POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd wrth gefn yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn yn unol ag anghenion y dyfodol, os na fydd cyllid ar gael o'r prif ffynonellau cyllido. Polisi'r Undeb yw sicrhau gwargedau cyllideb o'i weithgareddau cyfunol i gynhyrchu cronfeydd wrth gefn rhydd anghyfyngedig o leiaf £1.6m. Diffinnir cronfeydd rhydd fel 'cronfeydd anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Ar 31 Gorffennaf 2025, cyfanswm cronfeydd wrth gefn rhydd yr elusen rhiant oedd £3,249,349 (2024: £2,950,009) ac ar gyfer y grŵp roedd sefyllfa gyfunol o £1,803,781 (2024: £1,886,847).

CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION
(A Company Limited by Guarantee)

## CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES (INCORPORATING INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT)
## FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2025

| | Note | Restricted funds 2025 £ | Unrestricted funds 2025 £ | Total funds 2025 £ | *Total funds 2024 £* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Income from:** | | | | | |
| Donations and legacies | 3 | 1,764,004 | 3,327,138 | 5,091,142 | *3,652,975* |
| Charitable activities | 4 | - | 3,320,821 | 3,320,821 | *3,398,707* |
| Other trading activities | 5 | - | 5,543,935 | 5,543,935 | *5,807,849* |
| Investments | 6 | - | 83,790 | 83,790 | *49,440* |
| **Total income** | | 1,764,004 | 12,275,684 | 14,039,688 | *12,908,971* |
| **Expenditure on:** | | | | | |
| Raising funds | 8 | - | 8,621,953 | 8,621,953 | *8,147,112* |
| Charitable activities | | 30,164 | 4,456,819 | 4,486,983 | *4,688,100* |
| **Total expenditure** | | 30,164 | 13,078,772 | 13,108,936 | *12,835,212* |
| **Net income/(expenditure)** | | 1,733,840 | (803,088) | 930,752 | *73,759* |
| Transfers between funds | 25 | (1,196,979) | 1,196,979 | - | - |
| **Net movement in funds before other recognised gains/(losses)** | | 536,861 | 393,891 | 930,752 | *73,759* |
| **Other recognised gains/(losses):** | | | | | |
| Pension actuarial movement | | - | 1,585,026 | 1,585,026 | - |
| Pension discounting costs | | - | (213,239) | (213,239) | *(146,796)* |
| **Net movement in funds** | | 536,861 | 1,765,678 | 2,302,539 | *(73,037)* |
| **Reconciliation of funds:** | | | | | |
| Total funds brought forward | | 72,934 | 9,074,991 | 9,147,925 | *9,220,962* |
| Net movement in funds | | 536,861 | 1,765,678 | 2,302,539 | *(73,037)* |
| **Total funds carried forward** | | 609,795 | 10,840,669 | 11,450,464 | *9,147,925* |

CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION
(A Company Limited by Guarantee)
REGISTERED NUMBER: 07328777

## CONSOLIDATED BALANCE SHEET
## AS AT 31 JULY 2025

| | Note | | 2025 £ | | *2024 £* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | | | | | |
| Tangible assets | 13 | | 11,830,585 | | *11,813,378* |
| Investments | 14 | | 62,000 | | *62,000* |
| | | | 11,892,585 | | *11,875,378* |
| **Current assets** | | | | | |
| Stocks | 15 | 82,582 | | *102,608* | |
| Debtors: amounts falling due within one year | 16 | 1,124,962 | | *1,106,990* | |
| Investments | 17 | 1,052,537 | | *1,016,735* | |
| Cash at bank and in hand | | 3,235,754 | | *2,196,586* | |
| | | 5,495,835 | | *4,422,919* | |
| **Current liabilities** | | | | | |
| Creditors: amounts falling due within one year | 18 | (2,744,956) | | *(2,336,139)* | |
| **Net current assets** | | | 2,750,879 | | *2,086,780* |
| **Total assets less current liabilities** | | | 14,643,464 | | *13,962,158* |
| Creditors: amounts falling due after more than one year | 20 | | (3,004,000) | | - |
| Provisions for liabilities | | | (189,000) | | *(189,000)* |
| **Net assets excluding pension asset / liability** | | | 11,450,464 | | *13,773,158* |
| Defined benefit pension scheme liability | | | - | | *(4,625,233)* |
| **Total net assets** | | | 11,450,464 | | *9,147,925* |

# EITEM PUMP

## YMLYNIADAU

**Ffi Ymlynu UCM:** £38,370.00

**Ffi Ymlynu BUCS:** £24,968.00

- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig wedi'u hymlynu ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM SAITH

## AIL-STRWYTHURO ARFAETHEDIG TÎM Y SWYDDOGION SABOTHOL

Gwahoddir y CCB i gymeradwyo strwythur Swyddog Sabothol newydd i'w weithredu o Etholiadau'r Gwanwyn 2026.

**Llywydd UM**
**Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig**
**Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig**
**Is-lywydd y Gymraeg**
**Is-lywydd Myfyrwyr Rhyngwladol**
**Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr UA**
**Is-lywydd Cymdeithasau a Chymunedau**

*Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y CCB bydd y Swyddogion Sabothol yn cyflwyno cynnig ffurfiol i Senedd y Myfyrwyr ar gyfer cyflwyno dau Swyddog Myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan fel rhan o strwythur y Swyddogion Ymgyrch a byddant yn archwilio addasiad pellach i Bwyllgorau Gweithredol y Swyddogion i sicrhau cynrychiolaeth i fyfyrwyr Parc y Mynydd Bychan.

# EITEM WYTH

## A) CYNIGION SY'N DIRWYN I BEN

Bydd y cynigion canlynol a basiwyd yn y CCB yn dod i ben cyn y CCB nesaf a drefnwyd ar gyfer 2026. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig. Pasiwyd yr holl gynigion yn y CCB ym mis Tachwedd 2022.

Mabwysiadu Safbwynt Swyddogol o Blaid Dewis
Gweithredu ac atebolrwydd hinsawdd: Gwneud Net-Sero yn Realiti
Gweithredu Diwydiannol UCU
Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan y Byd FIFA 2022
Heddlu oddi ar y Campws

Gweler yr adran hon o'r wefan am yr holl bolisïau– https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/

## B) CYNIGION A GYFLWYNWYD

## CYNNIG UN: MAE WEDI CYMRYD DIGON HIR: MAE'N AMSER GWEITHREDU AR DRAIS RHYWIOL

**Nodiadau CCB**

1. Gyda chynsail cyfreithiol wedi'i sefydlu yn achos Feder a McCamish v Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, mae gan Brifysgol Caerdydd a'r Undeb Myfyrwyr ddyletswydd gofal tuag at eu myfyrwyr. [1]

2. Gyda pholisi E6 yn dod i rym yn Lloegr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Addysg Uwch gael darpariaethau i fynd i'r afael â thrais rhywiol ac i ddiogelu rhagddo, dylai Brifysgol Caerdydd a'r Undeb Myfyrwyr fod wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer mesurau cyfatebol gan y MEDR a fydd yn dilyn yn fuan. [2]

3. Mae Prifysgol Caerdydd wedi methu â chydnabod unrhyw gamwedd, er bod ymddiheuriad yn elfen allweddol o daith goroeswr. [3]

4. Mae diffyg hyfforddiant gorfodol ar gydsyniad a hyfforddiant ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol ar draws y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn rhwystr greu cymuned ddiogel i bob myfyriwr. [4]

5. Mae'r Undeb Myfyrwyr wedi methu â darparu ymgyrchoedd cyhoeddus ar gydsyniad i gyd-fynd ag Wythnos y Glas. Mae ymchwil yn awgrymu bod 62% o fyfyrwyr yn profi trais rhywiol mewn prifysgolion yn y DU, ac y bydd 50% o'r achosion hyn yn digwydd yn ystod y 'parth coch' (sef chwe i wyth wythnos gyntaf y flwyddyn academaidd). [5] [6]

6. Dylai goroeswyr deimlo'n ddiogel yn eu bywyd prifysgol, ond mae caniatáu i droseddwyr gymryd swyddi o rym o fewn yr Undeb Myfyrwyr yn peryglu eu bywyd academaidd a chymdeithasol yn y Brifysgol. Mae ymchwil yn awgrymu bod caniatáu i droseddwyr gael safleoedd o awdurdod dros eraill yn gallu atgyfnerthu tuedd awdurdod, gan arwain at fwy o fyfyrwyr yn cael eu niweidio gan unigolion o'r fath. [7]

7. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi methu â chasglu a chyhoeddi data ar amlder camymddwyn rhywiol ym Mhrifysgol Caerdydd, fel y cynigwyd yn y cynnig 'Time to Act: Tackling Sexual Misconduct At Cardiff University 2023'. [8]

8. Mae ymchwil yn awgrymu bod caniatáu i oroeswyr gyfrannu at lunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n goroeswyr-ganolog yn arwain at system well a mwy cefnogol i'r rhai sydd angen defnyddio'r gwasanaethau hynny. [9]

9. Mae goroeswyr sy'n mynd drwy brosesau cwyno, megis Student Cases neu'r Heddlu, mewn perygl uwch o gael eu trawmateiddio eto. Dylai'r Undeb Myfyrwyr ddarparu man diogel i oroeswyr drwy wahardd unigolion sy'n cael eu harchwilio o'r Undeb a'i safle dros dro. [10]

10. Mae ymchwil yn dangos bod dioddefwyr trais rhywiol yn profi beio'r dioddefwr, dadsensiteiddio sefydliadol, a diffyg ymddiriedaeth yn y gweithdrefnau cwyno ac felly rhaid i'r prosesau hyn fod yn wybodus ar drawma, gan drin goroeswyr gydag urddas a pharch. [11]

11. Mae cymunedau ymylol megis menywod o liw, ymfudwyr, pobl anabl, a phobl LHDT+ mewn mwy o berygl o brofi trais rhywiol. Mae methiant yr Undeb Myfyrwyr i ddarparu gwybodaeth gyhoeddus sy'n targedu'r cymunedau hyn yn benodol yn eu rhoi mewn hyd yn oed mwy o berygl. [12]

**Credoau CCB**

1. Mae gan Undeb y Myfyrwyr ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu pob myfyriwr sy'n aelod o'r Undeb rhag camymddwyn rhywiol, fel y dangosir gan ddyfarniad Feder & McCamish yn erbyn Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

2. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr weithredu'n bendant i lobïo'r Brifysgol i gymryd cyfrifoldeb am unrhyw fethiannau posibl er mwyn amddiffyn a chefnogi goroeswyr trais rhywiol.

3. Mae darparu hyfforddiant cynhwysfawr ac addas ar ddiogelu, cydsyniad a bod yn wyliwr gweithredol i bob clwb, cymdeithas, grŵp cyfryngau, a phawb sy'n dymuno cael mynediad iddo yn hanfodol, er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bob myfyriwr a gwneud yn siŵr nad yw trais rhywiol yn rhan o fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd.

4. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr am gydsyniad yn ystod cyfnod y Glas, er mwyn lleihau effaith trais rhywiol yn ystod y 'parth coch'.

5. Bydd rhoi cyfle i fyfyrwyr adrodd am droseddwyr sy'n dymuno ymgymryd â rolau allweddol o fewn yr UM (gan gynnwys cymdeithasau a thimau chwaraeon) yn creu Undeb Myfyrwyr mwy diogel a chynhwysol, lle na fydd myfyrwyr yn gorfod gweld eu troseddwyr mewn swyddi o rym.

6. Bydd casglu a chyhoeddi data ar amlder camymddwyn rhywiol yn helpu Undeb y Myfyrwyr i ddeall ble mae angen ymyrryd a sut y gellir targedu'r rhain yn briodol.

7. Bydd adolygiad dan arweiniad myfyrwyr i brif wasanaethau mewn ymchwiliadau yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddeall y prosesau'n well a helpu i lunio'r cyfeiriad y dylai'r gwasanaethau hyn weithio tuag ato er lles myfyrwyr.

8. Bydd gwahardd y rhai hynny rhag defnyddio safleoedd a grwpiau'r Undeb Myfyrwyr tra'n mynd trwy brosesau ymchwilio yn rhoi ymreolaeth i ddioddefwyr ar y campws ac yn eu helpu i deimlo'n ddiogel o fewn eu Undeb Myfyrwyr.

9. Mae goroeswyr trais rhywiol yn haeddu cael eu trin gydag urddas a pharch drwy unrhyw broses ymchwilio y maent yn mynd drwyddi ac ni ddylai'r prosesau hyn eu trawmateiddio eto.

10. Mae cymunedau ymylol mewn perygl uwch o brofi trais rhywiol o fewn y brifysgol a'r gymdeithas ehangach, felly mae angen mwy o waith gan Undeb y Myfyrwyr i gefnogi'r rhai sy'n perthyn i'r cymunedau hyn.

**Diwygiadau CCB**

1. Rhaid i swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr lobïo Prifysgol Caerdydd i gydnabod yn gyhoeddus fethiant i ddiogelu a chefnogi goroeswyr camymddwyn rhywiol.

2. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr ddarparu hyfforddiant ar gydsyniad ac ar fod yn wyliwr gweithredol i bob clwb chwaraeon, cymdeithas a grŵp cyfryngau myfyrwyr. Rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn ofyniad gorfodol i bob grŵp fynychu, a bydd canlyniadau am beidio â chymryd rhan.

2.1. Ni ddylai'r hyfforddiant hwn gael ei gyfyngu i'r grwpiau hyn a'u pwyllgorau yn unig, ond dylai fod ar gael yn rhwydd i bob myfyriwr sy'n dymuno cymryd rhan.

2.2. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Trafod pyramid trais rhywiol e.e. sut mae 'jôcs' am dreisio yn cyfrannu at drais rhywiol.
- Sut i ofyn am gydsyniad
- Stealthing
- Sharking
- Rheolaeth orfodol
- Sut i fod yn wyliwr gweithredol effeithiol
- Gwthio pen
- Mygu

2.3. Dylai'r holl hyfforddiant hwn ddefnyddio enghreifftiau y gellir eu trosi i adlewyrchu bywyd bob dydd myfyrwyr.

3. Rhaid i'r ymgyrch 'Let's Talk Consent', a sefydlwyd gan Georgia Spry (Llywydd yr Undeb Chwaraeon 2023-25), gael ei pharhau gan y swyddogion etholedig bob blwyddyn i gyd-fynd ag Wythnos y Glas.

4. Rhaid i'r Swyddogion Sabothol weithredu'r gofyniad newydd 'Fit to Stand' ar gyfer ymgeiswyr etholiad newydd. Dylent sicrhau cydweithrediad priodol â'r Brifysgol er mwyn rhannu'r wybodaeth angenrheidiol, a chynnal ymgynghoriad â 'Time to Act' a'r myfyrwyr ar y gofynion hyn.

5. Rhaid i'r grŵp gwaith a sefydlwyd o fewn Undeb y Myfyrwyr yn sgil y cynnig 'Time To Act' yn 2023 gael ei gymryd drosodd gan y llywydd a'r swyddog menywod bob blwyddyn. Rhaid diweddaru aelodaeth y grŵp gwaith hwn yn flynyddol.

6. Rhaid i swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr gasglu a chyhoeddi data ar amlder camymddwyn rhywiol ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn. Dylai hyn gynnwys ymgynghoriad sy'n cael ei anfon yn electronig at holl aelodau'r Undeb. Dylai Undeb y Myfyrwyr hefyd gynnal digwyddiadau ymgysylltu lle gall myfyrwyr ddod i ofyn cwestiynau am yr ymgynghoriad arfaethedig.

7. Rhaid i swyddogion Undeb y Myfyrwyr ymrwymo i adolygiad dan arweiniad myfyrwyr o'r SSIT a'r Achosion Myfyrwyr. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei arwain gan y Swyddogion Sabothol a bydd ar agor i fyfyrwyr gyfrannu.

8. Dylai Undeb y Myfyrwyr, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, adolygu ac, os yw'n ymarferol, gyflwyno mesurau cryfach ar ddiogelu, ymchwilio a disgyblu mewn achosion o gamymddwyn rhywiol. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys ystyriaeth o sut mae mesurau rhagofalus a chosbol yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb, tegwch a diogelwch myfyrwyr.

9. Rhaid i swyddogion Undeb y Myfyrwyr lobïo'r brifysgol i ddiweddaru'r weithdrefn ymddygiad myfyrwyr ymhellach, yn enwedig o ran trais rhywiol. Rhaid i hyn gynnwys y canlynol:

- Ni ddylid gorfodi goroeswyr i fod yn yr un ystafell â'u troseddwr honedig yn ystod trafodaethau'r panel.
- Rhaid i'r gweithdrefnau drin goroeswyr fel goroeswyr, yn hytrach nag fel pe baent hwy eu hunain ar brawf.
- Rhaid trin goroeswyr ag urddas a pharch.
- Rhaid sicrhau bod goroeswyr sy'n mynd drwy'r weithdrefn hon yn ymwybodol o gyrff neu gynrychiolwyr arbenigol annibynnol sy'n gweithio ar sail trawma, megis New Pathways.

- Rhaid i'r weithdrefn hon fod yn annibynnol.

10. Rhaid i swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr weithio i amlygu'r effaith y mae trais rhywiol yn ei chael ar gymunedau ymylol, drwy gydweithio gyda sefydliadau megis BAWSO a Galop.

11. Dylai Undeb y Myfyrwyr ddarparu cefnogaeth ymarferol, a thynnu sylw at gymorth allanol ychwanegol, i fyfyrwyr sy'n gaeth mewn sefyllfaoedd byw gyda'u camdriniwr. Dylai'r gefnogaeth hon gynnwys:

- Dod o hyd i lety arall i ddioddefwyr.
- Cyfeirio goroeswyr at Refuge, sy'n darparu llety dros dro brys.
- Cynnig cymorth gyda cheisiadau tai i'r awdurdod lleol.
- Cynnig cymorth llesiant wedi'i deilwra ar gyfer myfyrwyr sy'n byw gyda'u camdriniwr.

12. Dylai swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr lobïo asiantaethau gosod tai yng Nghaerdydd, er enghraifft Cardiff Students Letting, CPS, John Winters, Unite ac eraill, i ychwanegu cymal at gontractau rhentu sy'n caniatáu i ddioddefwyr dorri eu tenantiaeth heb gosbau na chanlyniadau os ydynt yn byw gyda'u camdriniwr, ac i'w cynorthwyo i ddod o hyd i lety arall.

13. Dylai Undeb y Myfyrwyr gryfhau'r camau a gymerir i hyrwyddo'r cymorth a gynigir gan 'Stronger Together' drwy weithio gyda'r grŵp myfyrwyr a hyrwyddo hyn yn weithredol i fyfyrwyr pan fyddant yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd sy'n ymwneud â thrais rhywiol.

**Cyfeiriadau**

*1) https://wonkhe.com/wp-content/wonkhe-uploads/2023/10/5-10-23-Feder-and-McCamish-v- RWCMD-FINAL.pdf (https://www.google.com/url?q=https://wonkhe.com/wp-content/wonkhe-uploads/2023/10/5-10-23-Feder-and-McCamish-v-&sa=D&source=editors&ust=1761677923184314&usg=AOvVaw2COOwlJhRDKSoFNQrFpz1q)*

*2) https://www.officeforstudents.org.uk/for-providers/student-protection-and-choice/harassment-and-sexual-misconduct/condition-e6-harassment-and-sexual-misconduct/ (https://www.google.com/url?q=https://www.officeforstudents.org.uk/for-providers/student-protection-and-choice/harassment-and-sexual-misconduct/condition-e6-harassment-and-sexual-*

*misconduct/&sa=D&source=editors&ust=1761677923185025&usg=AOvVaw1y42Rm21STro2Vg4pqdLsH)*

*3) https://napac.org.uk/the-importance-of-an-apology-for-survivors-of-abuse/ (https://www.google.com/url?q=https://napac.org.uk/the-importance-of-an-apology-for-survivors-of-abuse/&sa=D&source=editors&ust=1761677923185407&usg=AOvVaw01LSDuhZVAIE6a3e0MF2MV)*

*4) https://survivorsnetwork.org.uk/why-is-bystander-intervention-and-consent-training-in-universities-essential/ (https://www.google.com/url?q=https://survivorsnetwork.org.uk/why-is-bystander-intervention-and-consent-training-in-universities-essential/&sa=D&source=editors&ust=1761677923185890&usg=AOvVaw1bK9dgdMUCjMQpA56hHZS8)*

*5) https://www.instagram.com/p/DPju-xTjDU9/ (https://www.google.com/url?q=https://www.instagram.com/p/DPju-xTjDU9/&sa=D&source=editors&ust=1761677923186177&usg=AOvVaw0zq96sTRiCb2qFQHWHJFFw)*

*6) https://revoltsexualassault.com/research/ (https://www.google.com/url?q=https://revoltsexualassault.com/research/&sa=D&source=editors&ust=1761677923186447&usg=AOvVaw1dlpEzUnUk4yCKf-0BOZ_X)*

*7) https://www.psychologytoday.com/us/blog/the-new-teen-age/201905/the-psychological-persuasion-techniques-sexual-predators (https://www.google.com/url?q=https://www.psychologytoday.com/us/blog/the-new-teen-age/201905/the-psychological-persuasion-techniques-sexual-predators&sa=D&source=editors&ust=1761677923186968&usg=AOvVaw1UugMYQNli50snROPm0Cd8)*

*8) https://docs.google.com/document/d/1XnsS8xNHo_VzLS4OUigAuu5Z8OEphZajymbr5ck075Q/edit?usp=sharing (https://www.google.com/url?q=https://docs.google.com/document/d/1XnsS8xNHo_VzLS4OUigAuu5Z8OEphZajymbr5ck075Q/edit?usp%3Dsharing&sa=D&source=editors&ust=1761677923187432&usg=AOvVaw1EUH8h4HPbax0w4HzAddqP)*

*9) https://womensaid.org.uk/new-research-reveals-need-for-flexible-tailored-support-for-domestic-abuse-survivors/ (https://www.google.com/url?q=http://womensaid.org.uk/new-research-reveals-need-for-flexible-tailored-support-for-domestic-abuse-survivors/&sa=D&source=editors&ust=1761677923187892&usg=AOvVaw0T8t7X5EfkW7TmjDclViOL)*

*10) https://www.victimsupport.org.uk/court-process-re-traumatising-victim-survivors-of-sexual-violence-new-report-reveals/ (https://www.google.com/url?q=https://www.victimsupport.org.uk/court-process-re-traumatising-victim-survivors-of-sexual-violence-new-report-reveals/&sa=D&source=editors&ust=1761677923188345&usg=AOvVaw2NWUzuCBpb4unLjFG0dEct)*

*11) What Hinders Victims from Reporting Sexual ViolenceInternational Journal for Crime, Justice and Social Democracyhttps://www.crimejusticejournal.com › download (https://www.google.com/url?q=https://www.crimejusticejournal.com/article/download/1851/1085/7992&sa=D&source=editors&ust=1761677923188857&usg=AOvVaw09eIhNLGp-ZAh-ARB-xG6Z)*

*12) https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/Joint-Briefing-for-Meg-Hillier-MP-Debate-EVAW-Imkaan.pdf (https://www.google.com/url?q=https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/Joint-Briefing-for-Meg-Hillier-MP-Debate-EVAW-Imkaan.pdf&sa=D&source=editors&ust=1761677923189317&usg=AOvVaw2V9dvdmG1-0o3uWVLkiRM6)*

## CYNNIG DAU: FY NGWISG, FY NEWIS: CYDRADDOLDEB MEWN COD GWISG GOFAL IECHYD

### Nodiadau'r CCB

1. Mae'r cynnig hwn yn herio polisi presennol y Brifysgol ar wisg swyddogol a 'scrubs' ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd, gan nad yw'n darparu dewisiadau eraill sy'n unol â chanllawiau'r GIG a gallai fod yn torri ar ryddid myfyrwyr i fynegi eu crefydd, hygyrchedd a chydraddoldeb.

2. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw addasiadau'n cael eu darparu gan ysgolion gofal iechyd ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno gwisgo'n gymedrol yn eu 'scrubs' neu wisg theatr.

3. Mae dewisiadau priodol eraill, megis llewys tafladwy ar gael ac maent wedi'u crybwyll yn glir yng nghanllawiau Cyflogwyr y GIG, ond nid yw'r rhain ar gael i fyfyrwyr gofal iechyd gan y brifysgol.[1]

4. Weithiau caiff myfyrwyr gofal iechyd sy'n gwisgo'n gymedrol eu gwrthod rhag mynd i mewn i'r theatrau llawfeddygol am iddynt beidio â chydymffurfio â chodau gwisg safonol, er bod dillad cymedrol neu grefyddol sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer defnydd yn y theatr ac at ddibenion hylendid ar gael.

5. Mae canllawiau Gwisg yn y Gweithle Cyflogwyr y GIG yn nodi bod rhaid i godau gwisg fod yn gyfiawn, yn anwahaniaethol, ac yn sensitif i fynegiant crefyddol a diwylliannol - gyda rhesymeg glir, benodol i'r rôl, ac adolygiadau cydraddoldeb rheolaidd.[2]

6. Mae nifer sylweddol o fyfyrwyr crefyddol wedi'u lleoli ym Mharc y Mynydd Bychan, sef lle mae'r mwyafrif o fyfyrwyr gofal iechyd yn astudio.

7. Mae Undeb y Myfyrwyr yn hyrwyddo cynhwysiant fel gwerth craidd, ac mae rhwystrau i ryddid gwisgoedd yn groes i'r ymrwymiad hwn.

8. Yn aml, nid yw myfyrwyr gofal iechyd yn mynegi pryderon er mwyn osgoi gwrthdaro.

9. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan Brifysgol Caerdydd ddyletswydd gyfreithiol i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal - sy'n cynnwys sicrhau nad yw codau gwisg yn rhoi myfyrwyr o grefyddau neu gredoau penodol dan anfantais.[3]

10. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae crefydd a chred ymhlith y nodweddion gwarchodedig. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol 2024–2028 yn ail-gadarnhau'r ddyletswydd hon drwy ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bobl o bob ffydd a chred, ac i'r rhai heb unrhyw gred o gwbl.[4]

11. Mae llawer o fyfyrwyr, boed yn grefyddol neu'n anghrefyddol, yn dewis gwisgo'n gymedrol neu wisgo gorchudd pen am resymau personol, diwylliannol neu hygyrchedd.

**Credoau'r CCB**

1. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol i fyfyrwyr gofal iechyd sy'n dewis gwisgo dillad cymedrol ar leoliad, os yw Prifysgol Caerdydd am barhau i fod yn ofod cynhwysol i bob myfyriwr.

2. Nid yw'r gwisgoedd a'r 'scrubs' presennol a gymeradwywyd gan y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd yn cyd-fynd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol 2024–2028, ac felly nid ydynt yn ddigonol i gefnogi amcanion cydraddoldeb ehangach y Brifysgol yn y dyfodol.

3. Dylai ysgolion gofal iechyd Prifysgol Caerdydd, fel cyflogwyr y GIG, sicrhau bod codau gwisg yn gyfiawn, yn anwahaniaethol, ac yn sensitif i fynegiant crefyddol a diwylliannol - gyda rhesymeg glir, benodol i'r rôl, ac adolygiadau cydraddoldeb rheolaidd.

4. Mae gwrthod mynediad i fyfyrwyr gofal iechyd crefyddol i'r theatr lawfeddygol oherwydd eu dewis gwisg, heb gynnig dewisiadau addas eraill, yn eu rhoi dan anfantais academaidd.

5. Dylai'r Brifysgol gynnig llewys tafladwy a dewisiadau eraill sy'n safonol yn y diwydiant, er mwyn sicrhau bod ei pholisïau gwisg yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.

6. Mae gwisgoedd gofal iechyd gorfodol presennol y Brifysgol yn gweithredu fel rhwystrau i fynegiant crefyddol ym maes addysg gofal iechyd, sy'n groes i werthoedd Undeb y Myfyrwyr.

7. Gall methu â darparu gwisg gymedrol neu ddillad crefyddol beri i fyfyrwyr deimlo'n alltud a heb gefnogaeth.

8. Mae'n hawl ymreolaethol sylfaenol i bob unigolyn wisgo dillad o'u dewis, gan gynnwys gwisg grefyddol neu gymedrol.

9. Gall lles myfyrwyr gael ei effeithio'n negyddol pan fyddant yn teimlo dan bwysau i dderbyn cyfaddawdau annheg er mwyn osgoi gwrthdaro, sy'n mynd yn groes i gefnogaeth lles myfyrwyr.

10. Gan nad yw dillad cymedrol a gorchuddion pen yn gyfyngedig i arferion crefyddol yn unig, mae'r materion hyn hefyd yn cydgyffwrdd â phryderon ynghylch hygyrchedd a chydraddoldeb. Felly, mae'r mater hwn yn berthnasol i bob myfyriwr.

**Diwygiadau'r CCB**

1. Bod Undeb y Myfyrwyr yn lobïo'r Brifysgol a'i hysgolion gofal iechyd i gyflwyno fframwaith sy'n galluogi myfyrwyr i drafod a gwneud cais am drefniadau ar gyfer gofynion cymedroldeb yn gyfrinachol, naill ai drwy e-bost neu borth ar-lein.

2. Bod Undeb y Myfyrwyr yn lobïo'r Brifysgol a'r ysgolion gofal iechyd i ddarparu dewisiadau eraill o ran gwisgoedd a 'scrubs' cymedrol sy'n safonol yn y diwydiant – gan gynnwys 'scrubs' â llewys hyd at y penelin, llewys braich tafladwy, 'scrubs' gyda sgert, a gorchuddion pen crefyddol wedi'u cymeradwyo ar gyfer defnydd mewn theatrau llawfeddygol - yn unol â chanllawiau'r GIG.

3. Bod Undeb y Myfyrwyr yn eirioli gyda'r ysgolion gofal iechyd o fewn y Brifysgol dros fabwysiadu dewisiadau eraill a gymeradwywyd gan y GIG ar gyfer dillad cymedrol mewn lleoliadau theatr a lleoliadau gwaith.

4. Bod Undeb y Myfyrwyr yn lobïo'r Brifysgol i ymrwymo i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb rheolaidd ar bolisïau gwisg myfyrwyr gofal iechyd, yn unol â chanllawiau'r GIG.

5. Bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod gwisgoedd a 'scrubs' gofal iechyd yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol 2024–2028.

6. Bod Undeb y Myfyrwyr yn diweddaru ei gyfathrebiadau cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn ail-gadarnhau rhyddid myfyrwyr i ddewis eu gwisg eu hunain, gan gynnwys dillad crefyddol a chymedrol, fel rhan o'i ymrwymiad i gydraddoldeb ac ymreolaeth gorfforol.

7. Bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd lleol i wireddu'r penderfyniadau uchod mewn modd ymarferol i fyfyrwyr gofal iechyd.

**Cyfeiriadau**

*[1]https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2020/04/Uniforms-and-Workwear-Guidance-2-April-2020.pdf*

*[2] https://www.nhsemployers.org/articles/religion-dress-codes-and-chaplaincy*

*[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/part/2/chapter/1/2013-06-25*

*[4] https://www.cardiff.ac.uk/documents/2838925-strategic-equality-plan-2024-2028*

## CYNNIG TRI: I UNDEB MYFYRWYR CAERDYDD YMGYRCHU DROS A CHEFNOGI'R SAFBWYNT O BLAID DEWIS

### Nodiadau'r CCB

1. Mabwysiadodd y CCB safiad swyddogol o blaid dewis dair blynedd yn ôl, gan gydnabod pwysigrwydd amddiffyn hawliau atgenhedlu myfyrwyr a'u mynediad at ofal iechyd.

2. Mae'r polisi hwn bellach ar fin dod i ben, a fyddai'n gadael y CCB heb safbwynt ffurfiol ar erthyliad a hawliau atgenhedlu oni bai ei fod yn cael ei adnewyddu.

3. Mae erthyliad yn parhau i fod yn wasanaeth gofal iechyd cyfreithlon yng Nghymru, ond mae stigma, gwybodaeth anghywir a rhwystrau at fynediad yn parhau, gan effeithio ar allu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

4. Mae iechyd atgenhedlu yn parhau'n fater perthnasol i fyfyrwyr, a gall llawer ohonynt wynebu pwysau ariannol, emosiynol neu gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau am feichiogrwydd.

5. Mae cynnal polisi clir a gweithredol o blaid dewis yn sicrhau bod yr Undeb yn parhau i gefnogi ymreolaeth, lles, a mynediad myfyrwyr at wybodaeth gywir a gwasanaethau diogel.

6. Mae sefydliadau allanol gwrth-ddewis wedi targedu campws Prifysgol Caerdydd yn y gorffennol, gan arddangos delweddau brawychus a graffig a lledaenu gwybodaeth anghywir am erthyliad. Gall weithgarwch o'r fath beri gofid i fyfyrwyr, cyfrannu at stigma a gwybodaeth anghywir, a chreu amgylchedd anghyfeillgar i'r rhai sy'n ceisio neu sydd wedi cael gofal iechyd atgenhedlu.

### Credoau'r CCB

1. Mae gan bob myfyriwr yr hawl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu corff eu hunain a'u hiechyd atgenhedlu, heb orfodaeth, stigma na gwahaniaethu.

2. Mae gan Undeb y Myfyrwyr gyfrifoldeb i gynnal ac eiriol dros hawliau, ymreolaeth a mynediad myfyrwyr at ofal iechyd atgenhedlu diogel, gan gynnwys erthyliad.

3. Mae adnewyddu safbwynt yr Undeb o blaid dewis yn dangos ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb, cynhwysiant a lles.

4. Mae safbwynt o blaid dewis yn cefnogi pob myfyriwr, p'un a ydyn nhw'n dewis parhau â beichiogrwydd neu ei derfynu, drwy sicrhau bod cymorth ac adnoddau ar gael heb unrhyw feirniadaeth.

5. Byddai gadael i'r polisi blaenorol ddod i ben yn peryglu tanseilio'r cynnydd a wnaed tuag at ddileu'r stigma ynghylch erthyliad a diogelu hawliau atgenhedlu ar y campws.

6. Mae ail-gadarnhau'r safiad hwn yn grymuso'r Undeb i barhau i ddarparu gwybodaeth gywir, hyfforddiant ac ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo dewis atgenhedlu ac ymreolaeth gorfforol i bob myfyriwr.

**Diwygiadau'r CCB**

1. Ail-gadarnhau'r Safbwynt – Bydd Swyddogion Etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn ail-gadarnhau'n gyhoeddus eu cefnogaeth i'r safbwynt o blaid dewis.

2. Iaith Gywir a Chynhwysol – Bydd yr Undeb yn cynnal terminoleg niwtral, gynhwysol ac yn gywir yn feddygol sy'n ymwneud â beichiogrwydd, erthyliad ac iechyd atgenhedlu, gan ehangu gwybodaeth am gymorth a pholisïau perthnasol ar ôl colli babi.

3. Gwybodaeth Hygyrch, Gyfredol – Bydd yr Undeb yn cadw ac yn adolygu'n rheolaidd ddolenni cytbwys at wybodaeth ddibynadwy, gyfredol am feichiogrwydd, erthyliad a gwasanaethau gofal iechyd.

4. Mynediad Cyfrinachol at Gymorth – Bydd yr Undeb yn arddangos gwybodaeth gyfredol am wasanaethau beichiogrwydd ac erthyliad ar ddrysau toiledau, i sicrhau mynediad preifat i fyfyrwyr mewn sefyllfaoedd bregus neu gamdriniol.

5. Arweinyddiaeth y Swyddogion Sabothol – Bydd y Swyddogion Sabothol yn parhau'n gyfrifol am sicrhau bod ymgyrchoedd a strategaethau'r Undeb yn cefnogi'n weithredol y safbwynt o blaid dewis ac amgylchedd diogel a chynhwysol.

6. Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth – Bydd y Swyddogion Sabothol, gyda'r Swyddogion Ymgyrchu, yn parhau i redeg ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o blaid dewis, gan hyrwyddo mynediad at erthyliad diogel a chyfreithlon a gwybodaeth gywir.

8. Partneriaeth â'r Brifysgol – Bydd yr Undeb a Phrifysgol Caerdydd yn cydweithio ar grŵp gwaith i sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu hawliau i ymreolaeth gorfforol ac at ofal iechyd atgenhedlu, gan gynnwys erthyliad.

9. Amddiffyn rhag Aflonyddwch a Gwybodaeth Anghywir – Bydd Swyddogion Etholedig yr Undeb yn condemnio ac yn siarad yn gyhoeddus yn erbyn sefydliadau gwrth-ddewis sy'n aflonyddu neu'n dychryn myfyrwyr a/neu'n lledaenu gwybodaeth anghywir.

10. Cefnogaeth i Fyfyrwyr sy'n Cael eu Targedu – Bydd yr Undeb yn gwerthuso ac yn cryfhau gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yr effeithir arnynt gan weithgarwch gwrth-ddewis, gan sicrhau mesurau rhagweithiol i ddiogelu eu lles.

11. Cynnydd Parhaus ac Adolygu – Bydd yr Undeb yn adeiladu ar ei gynnydd presennol, gan ymdrechu i gynnal a datblygu amgylchedd campws sy'n seiliedig ar eglurder, tosturi, gwybodaeth gywir a'r hawl i ddewis.

## CYNNIG PEDWAR: GWNEUD CAERDYDD YN LLE DIOGEL I FYFYRWYR TRAWS

### Nodiadau'r CCB

*wrth ddefnyddio'r term 'traws' rydym yn cyfeirio at bob person amrywiol o ran rhywedd, megis dynion traws, menywod traws, agender, anneuaidd, cwiar o ran rhywedd, rhyngrhywiol, ac unrhyw dermau eraill sy'n dod o dan yr ymbarél hwnnw.

1. Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd (UMC) wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ond mae rhwystrau'n parhau i fyfyrwyr traws ar y campws sy'n effeithio ar eu lles, eu gweledded a'u mynediad at gyfleusterau a chyfleoedd, gan effeithio ar eu bywyd myfyrwyr.

2. Mae ymatebion i arolygon gan fyfyrwyr traws Prifysgol Caerdydd yn dangos bod pethau cadarnhaol, megis toiledau niwtral o ran rhywedd, tîm cymorth traws, a chymdeithasau croesawgar, ond bod bylchau amlwg hefyd o ran cyfleusterau, ymwybyddiaeth a gweledded.

3. Mae myfyrwyr wedi nodi diffyg ystafelloedd newid niwtral o ran rhywedd yng nghyfleusterau chwaraeon y brifysgol fel Canolfan Chwaraeon Talybont, biniau hylendid annigonol mewn toiledau dynion, a gweledded gwael o ran mannau cynhwysol i bobl draws.

4. Nododd myfyrwyr hefyd ddefnydd anghyson o enwau a rhagenwau dewisol ar draws adrannau a gwasanaethau'r brifysgol, yn ogystal â chyhoeddusrwydd annigonol ynghylch y broses o newid enwau a rhywedd ar systemau'r Brifysgol.

5. Tynnodd rhai myfyrwyr sylw at ddiffyg cynhwysiant pobl draws mewn chwaraeon a'r angen i Brifysgol Caerdydd a'r Undeb Athletau fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn polisïau chwaraeon a sicrhau mynediad teg i athletwyr traws, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno cymryd rhan mewn digwyddiadau varsity neu chwaraeon eraill.

6. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd datganiadau cyhoeddus clir o gynhwysiant pobl draws a pholisïau cynhwysol pobl draws gan y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr i frwydro yn erbyn gwybodaeth anghywir ac i ddangos cynghreiriaeth gweledol.

7. Yn genedlaethol, mae pobl draws yn wynebu gelyniaeth gynyddol, gan gynnwys diffyg gweithredu gan y llywodraeth ar wahardd therapi trosi, cyfyngiadau ar hunan-adnabod, a naratifau niweidiol yn y drafodaeth gyhoeddus. Mae'r materion cenedlaethol hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch, iechyd meddwl, ac ymdeimlad o berthyn myfyrwyr traws. Yn ogystal, mae myfyrwyr wedi cael eu heffeithio'n rhyngwladol, er enghraifft pan

fyddant ar astudiaeth dramor, gan wledydd sy'n gwahaniaethu ar sail materion geo-wleidyddol sy'n bygwth eu bodolaeth.

8. Mae rhyddid gwirioneddol i bobl draws nid yn unig yn gofyn am gynhwysiant, ond hefyd am eiriolaeth ragweithiol, addysg, cynghreiriaeth a chefnogaeth weladwy ar lefel sefydliadol a chymunedol.

**Credoau'r CCB**

1. Mae hawliau traws yn hawliau dynol. Mae gan bob myfyriwr a staff, waeth beth fo'u hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, yr hawl i deimlo'n ddiogel, cael eu parchu, cynrychioli a'u cefnogi o fewn amgylchedd a chymuned eu prifysgol.

2. Mae gan Undeb Myfyrwyr gyfrifoldeb i hyrwyddo cynhwysiant traws, sicrhau bod anghenion myfyrwyr traws yn cael eu clywed a'u diwallu, a herio pob math o drawsffobia, ar y campws a thu hwnt.

3. Mae cynghreiriaeth sefydliadol gweladwy, gan gynnwys datganiadau cyhoeddus ffurfiol, negeseuon cyson a pholisïau, yn hanfodol i wneud i fyfyrwyr traws deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed ac i frwydro yn erbyn gwybodaeth anghywir a stigma.

4. Mae mynediad cyfartal i chwaraeon, addysg a chyfleusterau yn rhan hanfodol o fywyd myfyrwyr. Ni ddylai myfyrwyr traws wynebu rhwystrau i gymryd rhan na chraffu ychwanegol wrth ddefnyddio'r lleoedd hyn.

5. Mae addysg ac ymwybyddiaeth ymysg corff ehangach y myfyrwyr yn allweddol ar gyfer creu diwylliant gwirioneddol gynhwysol. Ni ddylai ymgyrchoedd ganolbwyntio'n unig ar leoedd ar gyfer pobl Draws ond hefyd anelu at leihau anwybodaeth a rhagfarn ymhlith myfyrwyr.

6. Mae therapi trawsnewid mewn unrhyw ffurf yn niweidiol, cywilyddus, ac yn anghydnaws â gwerthoedd yr Undeb o barch, cynhwysiant ac ymreolaeth.

7. Dylai Prifysgol Caerdydd, UMC, a sefydliadau cysylltiedig lleol barhau i gydweithio i sicrhau bod holl systemau, gwasanaethau a chyfleusterau'r brifysgol yn adlewyrchu ac yn parchu hunaniaethau rhywedd, enwau a rhagenwau dewisol myfyrwyr.

8. Mae cynnal hawliau traws yn cyd-fynd ag ymrwymiadau ehangach UMC i gydraddoldeb, lles a diogelwch pob myfyriwr, ac yn adlewyrchu ei rôl fel corff blaengar, dan arweiniad myfyrwyr sy'n sefyll yn erbyn anghyfiawnder.

**Diwygiadau'r CCB**

1. Ail-gadarnhau a Chryfhau Ymrwymiad yr UM i Gynhwysiant Traws.

Bydd Swyddogion Etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn ail-gadarnhau'n gyhoeddus eu hymrwymiad i hawliau a chynhwysiant traws.

2. Gwella Gweledded a Mynediad at Gyfleusterau Cynhwysol i bobl Draws

2.1. Bydd yr UM yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i:

- Ehangu argaeledd toiledau ac ystafelloedd newid niwtral o ran rhywedd, gan roi blaenoriaeth i gyfleusterau chwaraeon fel Talybont.
- Sicrhau bod biniau hylendid priodol ym mhob toiled.
- Gwella adnoddau am fannau niwtral a chynhwysol.
- Sicrhau bod myfyrwyr traws yn gallu defnyddio'r mannau a'r cyfleusterau maent yn teimlo fwyaf cyfforddus yn eu defnyddio.
- Hysbysebu Gwasanaethau Cymorth Traws a Mannau Diogel.

2.2. Bydd yr UM yn cydweithio â'r Brifysgol i:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o fannau diogel LHDT+ a phobl amrywiol o ran rhywedd trwy adnoddau.
- Hyrwyddo'n glir y broses ar gyfer newid enwau a marcwyr rhywedd ar systemau'r Brifysgol, gan gynnwys cardiau adnabod myfyrwyr, cofnodion, a gwefan yr Undeb.
- Sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr traws sy'n astudio dramor, yn enwedig mewn gwledydd llai cynhwysol i bobl draws.
- Sicrhau Cysondeb wrth Barchu Hunaniaethau Myfyrwyr

2.3. Bydd yr UM yn lobïo Prifysgol Caerdydd i weithredu safon unedig ar draws y Brifysgol i sicrhau bod pob adran, system a staff yn defnyddio enwau a rhagenwau dewisol myfyrwyr yn holl gyfathrebiadau a chofnodion, gan fod yn ystyriol o'r rhai sy'n defnyddio enwau/rhagenwau eraill gyda phobl benodol.

3. Cynhwysiant Traws mewn Chwaraeon

3.1. Bydd yr IL Chwaraeon yn:

- Gweithio gyda BUCS, yr Undeb Athletau, a chyrff chwaraeon perthnasol i sicrhau bod myfyrwyr traws yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon heb wahaniaethu, waeth beth fo'u hunaniaeth.

- Darparu hyfforddiant i bwyllgorau clybiau ar gynhwysiant ac ymwybyddiaeth o bobl draws.
- Ymgyrchu i'r cyrff rheoleiddio chwaraeon cenedlaethol ddiwygio polisïau gwahaniaethu sy'n cyfyngu ar gyfranogiad athletwyr traws.

4. Ymgyrchoedd Addysg ac Ymwybyddiaeth

Bydd y Swyddogion Sabothol a'r Swyddogion LHDT+ yn arwain ymgyrchoedd blynyddol yn hyrwyddo cynhwysiant ac ymwybyddiaeth o bobl draws, gan fynd i'r afael â gwybodaeth anghywir a dathlu hunaniaethau traws. Bydd yr ymgyrchoedd hyn yn cynnwys deunyddiau addysgol ar gyfer pob myfyriwr a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer cymdeithasau ac arweinwyr myfyrwyr.

5. Gwrthwynebu Therapi Trosi

Bydd yr UM yn parhau i gondemnio pob math o therapi trosi ar gyfer pob hunaniaeth draws a LHDT+ a lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i roi gwaharddiad cynhwysfawr cenedlaethol ar therapi trosi.

6. Cryfhau Mecanweithiau Adrodd a Chymorth

6.1. Bydd yr UM yn gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod:

- Mecanweithiau adrodd ar gam-drin drawsffobig yn weladwy, hygyrch, ac yn ddibynadwy.
- Ei bod yn cael ei gwneud yn glir nad yw trawsffobia yn cael ei dderbyn o dan unrhyw amgylchiad.
- Bod myfyrwyr sy'n profi trawsffobia yn cael cymorth trwy wasanaethau lles a rhwydweithiau dan arweiniad cyfoedion.

7. Cynrychiolaeth ac Ymgynghoriad

Bydd yr UM yn sicrhau bod myfyrwyr traws yn cael eu hymgynghori'n ystyrlon ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar eu lles a'u cynrychiolaeth, gan gynnwys drwy grwpiau cynghori neu baneli ffocws dan arweiniad pobl draws.

8. Monitro ac Atebolrwydd

Bydd yr UM yn adolygu cynnydd ar yr ymrwymiadau hyn yn flynyddol, gyda'r Swyddogion Sabothol yn adrodd i Senedd y Myfyrwyr ac yn cyhoeddi diweddariadau ar wefan yr UM.

9. Condemnio Pob Math o Drawsffobia

Ni fydd yr UM yn derbyn unrhyw fath o drawsffobia a bydd yn delio ag unrhyw adroddiadau ohono yn unol â hynny.

# EITEM NAW

## HYSBYSIAD ETHOLIADAU'R GWANWYN 2026

Ar Ddydd Gwener 16eg Ionawr bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd pob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrch ar gyfer 2026/27 ar agor am enwebiadau'r etholiad hwn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cadwch lygad ar wefan Undeb y Myfyrwyr (www.cardiffstudents.com) ar gyfer yr Hysbysiad Etholiad swyddogol.

**DIWEDD Y PAPURAU**